

Ble galla' i weld yr adroddiadau archwilio?

Mae'r archwiliad yn cynhyrchu adroddiad bob blwyddyn, yn ogystal ag adroddiadau cleifion ac adroddiadau byr eraill. Mae'r holl ar gael ar ein gwefan yn: www.digital.nhs.uk/bowel.

Gyda pha ffynonellau gwybodaeth ydyn ni'n cysylltu?

- Ystadegau Cyfnodau Ysbytai
- Swyddfa Ystadegau Gwladol
- Set Ddata Radiotherapi Genedlaethol
- Therapi Gwrth-ganser Systemig (SACT, y set ddata cemotherapi)
- Set Ddata'r Ganolfan Genedlaethol Ymchwil ac Archwilio Gofal Dwys (ICNARC)
- Cronfa Ddata Cyfnodau Gofal Cleifion Cymru (PEDW)
- Canlyniadau a Gofnodwyd gan Gleifion (PROMS) ac Arolwg Profiadau Cleifion Canser
- Set Ddata Gwasanaethau a Chanlyniadau Canser
- Data Cofrestru Canser
- Archwiliad Laparotomi Brys Cenedlaethol (NELA)



The Association of
Coloproctology of
Great Britain
and Ireland



NHS
Digital

Archwiliad Cenedlaethol Canser y Coluddyn: Beth mae angen i chi ei wybod



Nod Archwiliad Cenedlaethol Canser y Coluddyn yw gwella'r gofal i gleifion.

Drwy edrych ar yr hyn sy'n cael ei wneud yn awr, gall yr archwiliad awgrymu newidiadau i wella'r gofal i bobl â chanser y coluddyn yn y dyfodol.

Mae'r archwiliad yn cymharu'r gofal mae cleifion canser y coluddyn yn ei gael ar draws Cymru a Lloegr. Un ffordd o wneud hyn yw edrych ar safon y gofal mae cleifion yn ei gael a pha mor llwyddiannus yw eu triniaeth.

Mwy o wybodaeth am NHS Digital

www.digital.nhs.uk
enquiries@nhsdigital.nhs.uk
0300 303 5678

Pam mae angen eich gwybodaeth arnom ni?

NHS Digital yw sefydliad y llywodraeth a gafodd ei sefydlu i gasglu ac astudio gwybodaeth am iechyd a gofal cymdeithasol.

Mae gan NHS Digital ganiatâd i ddefnyddio a storio gwybodaeth am gleifion i gynnal yr archwiliad hwn yn unol â rheoliadau llym mewn Deddfau Seneddol.

Mae gofal canser wedi gwella ers dechrau'r archwiliad ond mae'n bwysig parhau â'r cynnydd hwn. Er enghraifft, mae'r defnydd o lawdriniaeth twll clo yn lle llawdriniaeth fwy mewnwithiol wedi parhau i gynyddu o un flwyddyn i'r llall.

Po fwyaf o gleifion y cesglir gwybodaeth ganddynt, y mwyaf effeithiol yw'r archwiliad. Felly mae pob claf yn werthfawr i'r archwiliad.

Po fwyaf o gleifion y mae gennym wybodaeth amdanynt, y mwyaf cywir y mae ein canlyniadau yn debygol o fod.

Dim ond gwybodaeth o'ch nodiadau ysbyty sy'n cael ei defnyddio yn yr archwiliad. Mae'r ysbyty'n mewnblynnu gwybodaeth am eich triniaeth a'ch rhif GIG i gronfa ddata gyfrifiadurol, ddiogel yn NHS Digital.

Am beth mae'r archwiliad yn chwilio?

- Gwahaniaethau yn ansawdd gofal a gwasanaethau ar draws Cymru a Lloegr.
- A yw ysbytai'n bodloni canllawiau cenedlaethol.
- Pa ysbytai sy'n perfformio'n dda iawn er mwyn gallu rhannu'r dysgu ar draws y wlad.




Beth mae NHS Digital yn ei wneud â'ch gwybodaeth?

Rydym yn defnyddio eich rhif GIG i gysylltu eich gwybodaeth â ffynonellau gwybodaeth diogel eraill. Mae'r wybodaeth gysylltiedig hon yn dweud mwy wrthym am eich triniaeth – er enghraifft, a wnaethoch ddychwelyd i'r ysbyty heb gynllunio gwneud hynny.

Mae'r wybodaeth gysylltiedig hon gennych chi a chleifion eraill ar draws Cymru a Lloegr yn cael ei rhoi i Goleg Brenhinol y Llawfeddygon i'w dadansoddi a'i defnyddio yn adroddiadau'r archwiliad.

Mae'r wybodaeth yn ddiennw. Mae hyn yn golygu nad oes modd eich adnabod oherwydd mae eich gwybodaeth bersonol yn cael ei thynnu.

Mae'n bosib y byddwn yn rhoi rhifau GIG i ysbytai hefyd er mwyn iddynt wneud yn siŵr bod y wybodaeth am y cleifion hyn yn gywir.



Cefnogi ymchwil

Efallai y bydd eich gwybodaeth ddiennw (nad yw'n adnabyddadwy) yn cael ei rhannu at ddibenion ymchwil. Er enghraifft, gellir ei defnyddio yn yr amgylchiadau canlynol:

- cyhoeddi papurau mewn cyfnodolion meddygol i roi gwybodaeth i staff meddygol am y safonau gofal uchaf
- darparu gwybodaeth i ddylanwadu ar bolisi iechyd y cyhoedd, fel edrych ar effaith diagnosis cynnar

Eich hawl i ddweud na

Os nad ydych am i'ch gwybodaeth gael ei defnyddio, rhowch wybod i'r bobl sy'n eich trin. Byddant yn gwneud yn siŵr nad yw eich gwybodaeth yn cael ei chynnwys yn yr archwiliad.

Os ydych wedi cofrestru i gael eich optio allan o ddata ar lefel genedlaethol, ni fydd eich gwybodaeth yn cael ei defnyddio yn yr archwiliad.

Ni fydd hyn yn effeithio o gwbl ar eich triniaeth a'ch gofal.